

Y CERDD DANTIWR



Bwletin Newyddion Cymdeithas Cerdd Dant Cymru

Rhif 4, Gorffennaf 2010

Torri Calon ein traddodiad?

Cadeirydd y Gymdeithas, DAN PUW, sydd wedi bod yn edrych ar lwyddiannau Eisteddfod yr Urdd, ac yn ystyried effaith strategaeth ad-drefnu ysgolion ar ddyfodol ein traddodiadau.

Mae pawb erbyn hyn wedi hen ddygymod â'r canmol a fu ar Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron, - safon y cystadlu, y croeso, y safle - ac eleni, y tywydd hyd yn oed!

Mae'n dibynnu ar eich safbwynt personol chi wrth gwrs beth sy'n gwirioneddol fynd at y galon, ond bu amryw byd yn cyfeirio at gystadleuaeth y Parti Cerdd Dant i Adrannau Pentref, a'r tri pharti oedd ar y llwyfan. Y tri o Adrannau mewn ardaloedd lle mae dyfodol yr ysgol leol dan fygythiad, (yn y drefn y gosododd y beirniaid hwy) Ysbyty Ifan, y Parc a Llangwm.

Holi (yn hynod bryderus hefyd) y mae pawb, tybed a fydd gweithgarwch fel hyn yn yr ardaloedd yma a'u tebyg pan fydd ysgolion bach yn cau, a hynny yn groes i ddymuniad llywodraethwyr a rhieni. Roedd pob un o ddisgyblion CA2 o ysgolion yr tair ardal a nodwyd ar lwyfan Prifwyl yr Urdd.



Buddugwyr: Parti Cerdd Dant Adran Bentref Ysbyty Ifan ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd. Beth fydd dyfodol yr adrannau hyn wedi ad-drefnu ysgolion?

Tybed a fydd plant ein hardaloedd gwledig yn cael cystal cyfle a meithriniaid i ddod mor gyfarwydd â'n traddodiadau unigryw pan fyddant yn cael eu bysio i sefydliadau o'r maint y mae ein hawdurdodau addysg yn gynllunio ar ein cyfer?

Digon prin fod yna unrhyw gynghorydd na swyddog addysg a fedr warantu hynny, felly digon prin fod yna unrhyw riant yn fodlon derbyn y fath golled yn ddistaw.

Gerdd-dantwyr, codwn ein llais - fel un gwr!

CEFNOGI YSGOLION BACH

Yng nghyfarfod Mis Mehefin o Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas, pleidleisiodd yr aelodau o blaid gyrru llythyr o gefnogaeth i'r cynghorau sy'n bwriadu cau ysgolion bach, yn dilyn cais gan Bwyllgor Amddiffyn Ysgol y Parc.

GŴYL CERDD DANT GLANNAU MENAI 2010

Mae'r Pwyllgor lleol yn prysur baratoi at yr Ŵyl yn Neuadd PJ, Bangor, ar y 13^{eg} o Dachwedd. Dyma air gan MENAI WILLIAMS, y Cadeirydd:

"Rydym wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer eich croesawu - wedi cynnal amryw o weithgareddau codi arian yn barod, ac mae amryw i ddod eto (ewch i www.gwyl.org am fwy o fanylion). Mae gennym bob ffydd y bydd hon yn Ŵyl i'w chofio - ond mae hynny'n dibynnu arnoch CHWI! Dewch, gystadleuwyr a chynulleidfya, i Lannau Menai - bydd croeso cynnes iawn yn eich disgwyl!"

Cofiwch, gystadleuwyr, i anfon eich enwau erbyn **Hydref 1^{af}** i'r ysgrifennydd:

Delyth Vaughan, 14 Ffordd Ffrydlas, Carneddi, Bethesda, Gwynedd, LL57 3BL

Dylid amgáu amlen fawr (maint A4), wedi ei stampio, i dderbyn gwybodaeth rhagbrofion.



Bydd tocynnau arbennig ar gael i gystadleuwyr - £1 i blant a £2 i oedolion - mae'n angenrheidiol i bob cystadleuydd gael tocyn. Rhaid anfon y tâl gyda'r ffurflen gystadlu - ni dderbynnir ceisiadau hwyr am docynnau.

Galwch draw i stondin yr Ŵyl yn Tŷ Gwerin yn yr Eisteddfod Genedlaethol i brynu rhestr testunau a thocyn raffl

I ddarllen y manylion diweddaraf, ewch draw i'r wefan newydd: www.gwyl.org

Yr Ŵyl Cerdd Dant ar y we: www.gwyl.org

CYRSIAU'R GYMDEITHAS

Gweithdy Cyfeilio Cerdd Dant

Daeth criw dethol at ei gilydd i'r Gweithdy Cyfeilio yng ngwesty Llety Parc, Aberystwyth, fis Chwefror diwethaf. Roedd rhai yn mentro i fyd cyfeilio am y tro cyntaf, a rhai yn dod 'nôl i roi sglein ar eu crefft cyn brwydro drwy sawl Eisteddfod yr Urdd dros y misoedd oedd i ddilyn.



Alecs Peate yn cael gwers gan Gwenan Gibbard

Cysylltwch â'r Swyddog Gweinyddol am fwy o fanylion am y gweithdy fis Chwefror nesaf.

Cwrs Gosod Cerdd Dant

Mae'r Gymdeithas am drïo arbrawf o fynd â'r Cwrs Gosod i leoliadau gwahanol o amgylch Cymru i geisio denu cynulleidfa newydd.

Cynhelir y cwrs preswyl eleni felly ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan - Medi 11 - 13. Cost y cwrs yw £150, £75 i fyfyrwyr (prisiau'n aros fel yn 2009), yn cynnwys pob pryd bwyd a llety am ddwy noson.

Am fwy o wybodaeth am y cwrs ac am ffurflenni cais, cysylltwch â'r Swyddog Gweinyddol, Sion Gwilym, neu Haf Morris:

Haf Morris, 2 Maes Ffynnon, Llandegfan, Ynys Môn, LL59 5PS 01248 713097
neu bydd rhai ar gael yn Tŷ Gwerin yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Ffurflenni cais i'w dychwelyd erbyn Awst 9.

Cerdd Dant – lleol i chi

Mae cyfle i ddod â chyrisiau'r Gymdeithas yn lleol i chi. Os oes gennych chi a chriw o ffrindiau ddi-ddordeb mewn derbyn gwersi gosod neu gyfeilio Cerdd Dant, gall y Gymdeithas roi cymorth i chi drefnu'r cyrsiau a darparu'r arbenigedd priodol.


Gall fod ar ffurf cyfres o ddsbarthiadau nos, un noson ar ei phen ei hun neu benwythnos cyfan. Cysylltwch â'r Swyddog Gweinyddol i drafod ymhellach.

ETHOLIAD I'R PWYLLGOR GWAITH

Bydd pob aelod o'r Gymdeithas wedi derbyn ffurflen bleidleisio gyda'u copi o'r Cerdd Dantiwr ar gyfer ethol aelodau i'r Pwyllgor Gwaith.

Caniateir pleidleisio i hyd at **chwech** i wasanaethu ar y pwyllgor gwaith am y tair blynedd nesaf. Mwy o gyfarwyddiadau ar y ffurflen. Bydd blwch ym mhabell y Gymdeithas ar faes yr Eisteddfod i dderbyn y ffurflenni – fel arall plis dychwelwch nhw i'r Swyddog Gweinyddol erbyn **Medi 1** gan nodi "ETHOLIAD" ar y amlen.

Swyddog Gweinyddol: Sion Gwilym, 2 Maes Berea, Bangor, LL57 4TQ



CYFARFOD BLYNYDDOL

Llywydd y Gymdeithas eleni yw Trefor Puw, Trefenter. Bydd y cyfarfod blynyddol eleni felly yn ei ofal ef yn Neuadd yr Eglwys, Llangwryfon, yn ardal Mynydd Bach, ar **ddydd Sadwrn, Hydref 2ail 2010 am 2.30 o'r gloch**. Mae croeso cynnes i holl aelodau'r Gymdeithas.

Tŷ GWERIN 2010

Yn dilyn llwyddiant yr arbrawf yn Y Bala, bydd y Gymdeithas unwaith eto'n ymuno efo'r teulu gwerinol yn Tŷ Gwerin, gan groesawu aelod newydd: Cymdeithas Genedlaethol Dawns Werin Cymru.

Dewch draw i ymweld â ni yn **stondin 713 -716. ****GWEITHGAREDDAU******



Tŷ Gwerin 2009

"BE' DWI'N GAEL OS DWI'N YMAELODI?"

Allwedd y Tannau bob blwyddyn – cylchgrawn swmpus yn cynnwys cyfarwyddiadau a chanllawiau sut i osod testunau Eisteddfod yr Urdd

Y Cerdd Dantiwr – ddwywaith y flwyddyn

Gwybodaeth gyson am ddigwyddiadau

(os rhowch eich cyfeiriad ebost i'r Swyddog Gweinyddol, Sion Gwilym)

Y fraint o gael cefnogi cymdeithas ddiwyd a bywiog sy'n hybu'r diwylliant Cymraeg!

TELERAU ARBENNIG I BOBL IFANC: DIM OND £5!

(pawb sydd mewn addysg llawn amser)

TELERAU I BAWB ARALL : £10